

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 10, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes, Llinos Williams, Carwyn Evans, Gethin Williams. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, Paul Williams.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.e.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 12, 2017

Wedi cywiro 'RFO' yn Eitem 4.Eitem 6.d.2. i ddarllen 'SAL', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 12, 2017

Eitem 10.ch ac Eitem 11.a. (Cofnodion Gorffennaf 11, 2017). Llythyr ateb (6/10/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi llenwi twll gyda thar ac am drefnu clytwaith ar y ffordd a'i roi ar y rhaglen arwisgo at flwyddyn nesaf.

Eitem 10.d.2. Llythyr (18/9/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bod Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi rhoi y mater y dŵr yn sefyll ar y ffordd rhwng cylchffordd Llanelltyd a phont dros Afon Mawddach i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Eitem 5.ch. Derbyniwyd (18/9/2017) ad-daliad TAW, £185.55, am y cyfnod 2014-2015, 2015-2016 a 2016-2017 oddi wrth HMRC .

Eitem 10.d.3. Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Cymorth Naturiol Cymru i gael gwybod beth yw'r diweddaraf ynglŷn â gwaith yn y goedwig yn Llanelltyd.

5. Materion Ariannol

a. Bil (14/9/2017) am £233.40 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2016/17 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £272.40)

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 10, 2017

b. Bil (20/9/2017) am £225.00 oddi wrth Janet Edwards at daliad glanhau a gofalu am Doiledau Bontddu yn Gorffennaf, Awst a Medi.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Derbyniwyd siec am £62.50 oddi wrth Mrs Lois Wyn Foster. Taliad at Meinir Wakefield – hawl i wasgaru gweddillion amlosgedig £50.00 + 25% = 62.50.

ch. Balans yn y banc ar 29 Medi 2017: £11,348.09.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (28/9/2017) oddi wrth Uwch Arolygydd a Chofrestrydd Mynwentydd, Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn ymateb i arolwg ynghylch ei rôl fel Awdurdod Claddu ac oherwydd maent yn gofyn faint o'r cynghorau cymuned a thref sydd yn awdurdod claddu. Maent angen ateb cyn dydd Gwener Hydref 6.

Rhodddwyd gwybod iddynt (29/9/2017) ein bod yn awdurdod claddu.

b. Bydd Meurig Ashton yn clirio gordyfiant ar y wal sy'n dilyn y ffordd i Tan Lan. Bydd hefyd yn clirio tyfiant ar wal sy'n rhanu'r fynwent.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dim adroddiad.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (21/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy' wedi cael ei ymestyn i Medi 30. Y mater dan sylw yw'r cynnig 10 sydd i newid pob llwybr yng Nghymru i lwybr beicio a llwybr marchogaeth. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Rhodddwyd ateb (29/9/2017) yn rhoi gwybod mi fydd y cynnig yn caniatáu beicio a marchogaeth ar holl lwybrau cyhoeddus a bydd hyn yn rhoi fwy o ddefnydd ar y llwybrau. Mae'n sicr bydd hyn yn achosi cynnydd sylweddol mewn gwariant i gynnal a chadw'r llwybrau, a'r Cyngor Cymuned bydd rhaid wynebu'r costau. A phwynt arall sy'n achosi pryder ydy'r bwriad i ganiatau gwerysyla dirwystyr ar unrhyw dir agored yng Nghymru.

Anfonwyd y neges ymlaen i Natural Resources Management fel awgrymwyd gan Un Llais Cymru.

Llythyr ateb (5/10/2017) oddi wrth Gweinidog Cysgodol dros dro Ynni, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 10, 2017

b. Llythyr (26/9/2017) oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau cynrychiolydd o'r Cyngor fel Llywodraethwr ar Ysgol Llanelltyd.

Cafwyd wybod gan Swyddog o Addysg ein bod o dan ddalgylch Ysgol Bro Idris sef Ysgol ddilynol newydd ardal Dolgellau a'r cyffiniau, felly nid oes cynrychiolaeth o'r Cyngor Bro leol ar Ysgolion dilynol maent yn dod o dan yr un Offeryn Llywodraethu a'r Ysgolion Uwchradd. Felly ni fydd angen ini chwilio am enwebiad.

c. Llythyr (28/9/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhestri cyrsiau sydd ar gael. Y cwrs lleol yw Cyfarfod y Cyngor yn Canolfan Hen Blas, Bala ar ddydd Mercher 18/10/2017 am 6.30yh.

ch. Llythyr (2/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Understanding the Law yn Swyddfa Cyngor Tref Tywyn ar ddydd Iau, Hydref 5 am 6.30yh.

d. Llythyr (26/9/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am ailwynebu ffordd A496 yn Cylchfan Llanelltyd, a rhwng Bontddu a Coedmor ym mis Tachwedd 2017.

Penderfynwyd i Gethin Williams gwneud ymoliadau gyda'r Gwasanaeth i gael gwybod pa waith bydd yn cael ei wneud.

dd. Llythyr (29/9/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda dogfen Ymgynghoriad: Canllaw i Brif Cynghorau ar Arolygon Cymunedol.

e. Llythyr (30/9/2017) oddi wrth Tîm Achub y Dydd. Maent yn rhoi gwybod mae ambell i gyfarfod wedi bod i greu papur lleol gyda'r Dydd wedi dod i ben. Maent angen cynrychiolyddion o'r Cyngor i fod yn eu Cyfarfod nesaf i roi cyfraniad sut i symud ymlaen. Bydd y Cyfarfod nos Iau, Hydref 19, 2017 yn y Llyfrgell Rydd am 7.30yh. Maent yn gofyn am rodd ariannol i gychwyn y prosiect.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Tîm ein bod yn cefnogi eu ymdrech i greu papur bro ac yn gaddo rhoi £50 pryd fydd ei angen. Bydd Elfed ap Gomer yn cynrychioli'r Cyngor yn y Cyfarfod.

f. Llythyr (3/10/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mae eu Panel Adolygiad Annibynnol yn ystyried rôl cynghorau cymuned a thref yn ystod y flwyddyn. Fel lle cychwyn mae amgau ddalen gyda 4 cwestiwn i'w hateb.

ff. Llythyr (1/10/2017) oddi wrth Mr Simon J. Evans, Llanelltyd yn cynnig ei hun i fod yn aelod o'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn cais Mr Evans i fod yn gynghorydd ar y Cyngor.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 10, 2017

g. Llythyr (27/0/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r cyngor cydweithio hefo Hunaniaith i gynyddu defnyddio Cymraeg gan grwpiau a busnesau yn yr ardal. Gyda chynyddu defnydd o'r Gymraeg mae cyfle i'r cyngor wobrwyo grant flynyddol i'r cymdeithasau. I wneud hyn gall Hunaniaith ddarparu adnoddau i'w rhannu gyda'r cymdeithasau (amgau mae esiampl o'r hyn bydd yn cael ei gynnig). Mae Cyngor Gwynedd angen i ni:

1. sgwrsio am y prosiect gyda swyddog Hunaniaith,
2. trafod ar ddefnydd a wneir o'r Gymraeg gan y cymdeithasau byddwn yn cefnogi.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gwybod os rydym o blaid y cynnig.

Y sefydliadau sy'n defnyddio'r Neuadd Bentref Llanelltyd:

Llanelltyd Felt Group, Yoga, Bore Coffi Llanelltyd, Wild Life Trust, Spinners and Weavers, Llanelltyd Art Group, Cymdeithas Hanes Meirionnydd, Bee Keepers, Dolgellau Bridge Club, Textiles, Capel Coffa, Agor y Llyfr, Dysgu Cymraeg, Sioe Sir, Sŵn yr Afon, Merched y Wawr.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Neuadd Bentref Bontddu i gael gwybod y sefydliadau sy'n defnyddio'r neuadd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Gyda'r newyddion cafwyd gan Llywodraeth Cymru am roi llai o arian i gynghorau sir, mae'n debygol bydd Cyngor Gwynedd yn torri lawr eto ar y gwasanaethau maent yn ei roi.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd i Peredur Jenkins rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen arwydd 50 (mya) ar y gyffordd o Vanner i'r A470.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen caead newydd i bin halen sydd wrth fynedfa Cesailgwm Mawr, Taicynhaeaf oherwydd mae'r caead presennol wedi torri. Hefyd mae angen symud bin halen sydd wth ciosg yn Taicynhaeaf i le mwy addas oherwydd mae'r tir lle mae wedi ei leoli ddim yn gadarn.
